


# SEFYLLFA BYD NATUR

# STATE OF NATURE

## CRYNODEB I GYMRU
## A SUMMARY FOR WALES

sefyllfa byd natur PARTNERIAETH
state of nature PARTNERSHIP

2019

# PENAWDAU

**Cyn y man cychwyn o 1970 a ddefnyddiwyd gan adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2019*, rydym yn gwybod bod colled a gostyngiad ar raddfa eang mewn cynefinoedd ledled Cymru, sy'n dyddio'n ôl ganrifoedd lawer, ac nid yw bywyd gwyllt y wlad wedi adfer ohono.**

Ers 1970, mae'r pwysau ar dirluniau a morluniau amrywiol Cymru wedi golygu bod bioamrywiaeth wedi profi colledion yn ogystal ag enillion. Mae adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2019* yn dangos bod bywyd gwyllt Cymru, ar gyfartaledd, wedi dirywio yn ystod y degawdau diwethaf.

Mae'r cyfartaledd o loÿnnod byw yng Nghymru wedi gostwng ers 1976. Mae'r cyfartaledd o ran tueddiadau mewn adar a mamaliaid yn cynyddu, er bod rhai rhywogaethau wedi gostwng yn gyflym, gan gynnwys llawer o'r rhai sy'n dibynnu ar dir fferm. Mae'r cynnydd cyfartalog o ran mamaliaid yn ganlyniad i fod wedi darganfod ambell i rywogaeth o ystlumod a oedd yn hanesyddol wedi gostwng yn sylweddol.

Mae ein ffyrdd o fesur dosbarthiad rhywogaethau, sy'n cynnwys ystod eang o blanhigion ac anifeiliaid ag asgwrn cefn, wedi dirywio ers 1970, gyda mwy o rywogaethau'n gostwng nag yn cynyddu. Mae'n ymddangos bod cyfradd y newid hwn ym myd natur yn cynyddu. Mae ein hystadegau ni'n dangos bod bron i hanner y rhywogaethau mae gennym ddata ar eu cyfer wedi dangos newidiadau mawr o ran dosbarthu dros y degawd diwethaf.

Mae'r pwysau ar fywyd gwyllt yn dod o wahanol ffynonellau, gan gynnwys rheoli amaethyddol, graddau'r trefoli, llygredd, newidiadau hydrolegol, rheoli coetiroedd a rhywogaethau estron goresgynnol. Mae newid yn yr hinsawdd yn llywio newidiadau eang o ran nifer, dosbarthiad ac ecoleg bywyd gwyllt Cymru, a bydd yn parhau i wneud hynny am ddegawdau sydd i ddod.

Mae cynnydd wedi cael ei wneud, er enghraifft, wrth sefydlu ardaloedd ar y tir ac yn y môr sydd wedi'u diogelu, ond mae sicrhau cyflwr da a rheolaeth briodol yn parhau i fod yn her, ac mae angen cymryd camau pellach i sicrhau ecosystemau cadarn.

# HEADLINES

**Prior to the 1970 baseline used by the *State of Nature 2019,* we know there was widespread loss and degradation of habitats across Wales, dating back many centuries, from which the country's wildlife has not recovered.**

Since 1970, pressure on Wales' diverse landscapes and seascapes has resulted in both losses and gains for biodiversity; the *State of Nature 2019* report shows that, on average, Wales' wildlife has declined in recent decades.

The average abundance of butterflies has declined in Wales since 1976. Average trends in birds and mammals are increasing, although some species have declined rapidly, including many that depend on farmland. The average increase in mammals is driven by the recovery of a few bat species from a significant historic decline.

Our measure of species' distribution, covering a broad range of plants, invertebrates and vertebrates, has declined since 1970, with more species decreasing than increasing. The rate of this change in nature appears to be increasing: our statistics indicate that over the last decade nearly half of the species for which we have data have shown strong changes in distribution.

Pressures upon wildlife come from many sources, including agricultural management, urbanisation, pollution, hydrological change, woodland management and invasive non-native species. Climate change is driving widespread changes in the abundance, distribution and ecology of Wales' wildlife, and will continue to do so for decades to come.

Progress has been made, for example, in establishing terrestrial and marine protected areas, but securing good condition and appropriate management remains a challenge, and further action is needed to secure resilient ecosystems.



"Y BARCUD COCH YN ADFYWIO, GWEILCH Y PYSGOD YN AILFYWIOGI, CREHYROD Y GWARTHEG YN BRIDIO… MAE LLAWER O RYWOGAETHAU'N DOD Â BYWYD NEWYDD I'R DEYRNAS UNEDIG OND MAE CYNNYDD PARHAUS YN Y RHESTR O RYWOGAETHAU SY'N DIRYWIO. MAE'N RHAID I NI UNO NAWR I ACHUB Y RHYWOGAETHAU HYN CYN IDDYNT FYND YN ANGOF AM BYTH."

DAN ROUSE, 23
CADWRAETHWR IFANC

DARLLENWCH FWY YN ADRODDIAD
*SEFYLLFA BYD NATUR 2019*
www.nbn.org.uk/stateofnature2019
#SEFYLLFABYDNATUR

"THE REVIVAL OF THE RED KITE, OSPREYS BOUNCING BACK, BREEDING CATTLE EGRETS… MANY SPECIES ARE BRINGING NEW LIFE TO THE UK BUT THE LIST OF DECLINING SPECIES IS EVER GROWING. WE MUST UNITE NOW TO SAVE THESE SPECIES BEFORE THEY'RE BUT A DISTANT MEMORY."

DAN ROUSE, 23
YOUNG CONSERVATIONIST

READ MORE IN THE
*STATE OF NATURE 2019* REPORT
www.nbn.org.uk/stateofnature2019
#STATEOFNATURE

# SEFYLLFA BYD NATUR 2019: CRYNODEB I GYMRU

**Mae partneriaeth Sefyllfa Byd Natur yn cynnwys dros 70 o bartneriaid sy'n deillio o sefydliadau cadwraeth anllywodraethol, sefydliadau ymchwil, llywodraeth y DU a'r llywodraethau cenedlaethol. Rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd i asesu sefyllfa bywyd gwyllt y DU, a cheisio ei ddeall yn sgil y pwysau sy'n bodoli ar fyd natur a'r ymatebion sy'n cael eu gwneud i adfer ein treftadaeth naturiol.**

Mae adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2019* yn defnyddio data a gasglwyd gan ddegau o filoedd o wirfoddolwyr arbenigol. Mae'r data'n cael eu dadansoddi gan ddefnyddio dulliau ystadegol trylwyr er mwyn adrodd ar sefyllfa natur ledled y DU a Dibyniaethau'r Goron yn y DU a Thiriogaethau Dramor, yn ogystal â'r raddfa yng ngwledydd y DU.

Mae gan Gymru ystod amrywiol o gynefinoedd. Gwelir hyn o fynyddoedd Eryri a Bannau Brycheiniog hyd at diroedd fferm caeedig sy'n cael eu meddiannu gan gynnyrch da byw ac yng ngwaelodion y dyffrynnoedd coediog niferus i'r aberoedd a'r môr. Mae coetiroedd derwen mes digoes Cymreig, sy'n cynrychioli hanner y "coedwigoedd glaw tymherus" yn Ewrop, yn cynnwys cymunedau llawn bryoffytau, cennau a ffyngau. Mae'r mynyddoedd ar y llaw arall yn cynnwys llu o anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin, yn cynnwys Chwilen yr Wyddfa, a phlanhigion arctig-Alpaidd fel Lili'r Wyddfa.

Mae arfordir Cymru'n ymestyn dros 2,000km. Mae'r ynysoedd oddi ar Sir Benfro, Ynys Môn a Phenrhyn Llŷn yn cynnwys nythfeydd o adar môr sydd o bwysigrwydd byd-eang, yn cynnwys nythfeydd magu adar drycin Manaw mwya'r byd a phedwerydd nythle mwyaf o huganod yn y DU. Mae Bae Ceredigion yn gartref i un o boblogaethau rhannol breswyl mwyaf Dolffiniaid Trwyn Potel y DU.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sefyllfa byd natur yng Nghymru, gan gynnwys manylion y data a'r dadansoddiadau sy'n sail i'n canfyddiadau yn adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2019* y DU:

www.nbn.org.uk/stateofnature2019

**Ar lefel y DU, mae niferoedd a dosbarthiad rhywogaethau ar gyfartaledd wedi gostwng dros y degawdau diwethaf ac mae nifer o fesurau'n awgrymu y bydd y dirywiad yn parhau. Nid oes stop wedi bod ar y colledion net ym myd natur y DU.**

# DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL

O'r 6,500 o rywogaethau a welir yng Nghymru sydd wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch Ranbarthol yr IUCN a lle roedd digon o ddata ar gael, mae 523 (8%) o dan fygythiad ym Mhrydain (dyma'r raddfa mae'r rhan fwyaf o asesiadau'r Rhestr Goch yn cael eu gwneud).

Yn ogystal â hynny, mae asesiadau o'r anifeiliaid sydd mewn perygl o ddiflannu yng Nghymru wedi cael eu llunio ar gyfer 3,902 o rywogaethau lle roedd data digonol ar gael. O'r rhain, mae 666 (17%) dan fygythiad yng Nghymru a 73 (2%) arall eisoes wedi diflannu.

Mae gennym batrwm llai o dueddiadau yn y nifer o rywogaethau yng Nghymru nag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae poblogaeth lai yn golygu llai o bobl yn cofnodi bywyd gwyllt. Mae'r dangosyddion mwyaf ar gyfer grwpiau o rywogaethau ar y tir ac mewn dŵr croyw yn dangos tueddiadau amrywiol yn ystod cyfnodau'r arolwg.

Mae dangosydd sydd wedi ei seilio ar nifer cyfyngedig (83) o adar bridio wedi dangos cynnydd o 37% yn y niferoedd cyfartalog ers 1994, er nid yw hyn yn adlewyrchu rhai o'r gostyngiadau sydd wedi digwydd mewn rhywogaethau sydd bellach yn rhy brin i'w monitro. Mae dangosydd sy'n mesur digonedd wedi'i seilio ar 33 rhywogaeth o löynnod byw wedi gostwng 52% ers 1976.

Mae ein dangosydd dosbarthiad cyfartalog rhywogaethau wedi gostwng 10% ers 1970. Mae'r dangosydd yn cynnwys data ar 2,977 o rywogaethau ar y tir ac mewn dŵr croyw mewn grwpiau tacsonomaidd eang a chynrychiadol. Oherwydd bod rhywogaethau'n tueddu i ostwng mewn niferoedd mawr cyn iddynt ddiflannu o safle, gall y newid hwn adlewyrchu dirywiad sylfaenol gwaeth nad ydym yn gallu ei fesur ar hyn o bryd.

O fewn y dangosydd hwn, mae mwy o rywogaethau wedi gostwng nag wedi cynyddu. Ers 1970, mae 30% o rywogaethau wedi gostwng a 23% wedi cynyddu o ran dosbarthiad, gyda 47% yn dangos dim newid. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae 39% o rywogaethau wedi gostwng a 30% wedi cynyddu o ran dosbarthiad, gyda 31% yn dangos ychydig o newid yn unig. Mae bywyd gwyllt Cymru yn wynebu newidiadau cyflym o ran dosbarthiad. Roedd cyfran y rhywogaethau a ddiffiniwyd yn dangos newidiadau mawr o ran dosbarthiad – un ai wedi cynyddu neu wedi gostwng – wedi codi 24% yn y tymor hir i 46% dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

# THE STATE OF NATURE 2019: A SUMMARY FOR WALES

**The State of Nature partnership consists of over 70 partners drawn from conservation NGOs, research institutes, and the UK and national governments. We have worked together to assess the state of the UK's wildlife, and to understand this in light of the pressures on nature and the responses being made to recover our natural heritage.**

The *State of Nature 2019* report uses data collected by tens of thousands of expert volunteers. These data are analysed using rigorous statistical methods to report on the state of nature across the UK and in the UK's Crown Dependencies and Overseas Territories, and at the scale of the UK's constituent nations.

From the mountains of Snowdonia and the Brecon Beacons through the enclosed farmland dominated by livestock production and down the numerous wooded valleys to the estuaries and sea, Wales holds a diverse range of habitats. The Welsh Sessile Oak woodlands, which make up half of Europe's "temperate rainforests", hold rich communities of bryophytes, lichens and fungi, while the mountains host rare invertebrates, including the Snowdon Leaf Beetle, and arctic-alpine plants such as the Snowdon Lily.

The Welsh coastline stretches for over 2,000km. The islands off Pembrokeshire, Anglesey and the Llŷn Peninsula hold seabird colonies of global significance, including the world's largest Manx Shearwater breeding colony and the UK's fourth largest gannetry. Cardigan Bay supports one of the larger semi-resident populations of Bottlenose Dolphin found in the UK.

Further information on the state of nature in Wales, including details of the data and analyses underpinning our findings, can be found in the UK *State of Nature 2019* report:

www.nbn.org.uk/stateofnature2019

**At the UK scale, the abundance and distribution of species has, on average, declined over recent decades and many measures suggest this decline continues. There has been no let-up in the net loss of nature in the UK.**

# KEY FINDINGS

Of the 6,500 species found in Wales that have been assessed using the IUCN Regional Red List criteria, and for which sufficient data were available, 523 (8%) are currently threatened with extinction from Great Britain (the scale at which most Red List assessments are made).

In addition, assessments of extinction risk within Wales have been made for 3,902 species for which sufficient data were available. Of these, 666 (17%) are threatened with extinction from Wales, and another 73 (2%) have gone extinct already.

We have fewer robust trends in species' abundance for Wales than for the UK's other countries, the smaller human population meaning there are fewer people recording wildlife.

The abundance indicators for terrestrial and freshwater species groups show varying trends over the different time periods covered.

An indicator based on a restricted number (83) of common breeding birds has shown a 37% increase in average abundance since 1994, although this does not reflect some of the declines known to have occurred in species that have become too scarce to be monitored. An abundance indicator based on 33 butterfly species has decreased by 52% since 1976.

Our indicator of average species' distribution has fallen by 10% since 1970. This indicator includes data on 2,977 terrestrial and freshwater species over a broad and representative range of taxonomic groups. Because species tend to decline in abundance before they disappear from a site, this change could reflect more severe underlying abundance declines that we are currently unable to quantify.

Within this indicator, more species have decreased than increased. Since 1970, 30% of species have decreased and 23% increased in distribution, with 47% showing little change. Over the past 10 years, 39% of species have decreased and 30% increased in distribution, with 31% showing little change. Wales' wildlife is undergoing rapid change in distribution; the proportion of species defined as showing strong changes in distribution – either increases or decreases – rose from 24% over the long term to 46% over the past 10 years.



sefyllfa byd natur PARTNERIAETH
state of nature PARTNERSHIP

**Mae adroddiad *Sefyllfa Byd Natur 2019* yn gydweithrediad rhwng y sefydliadau cadwraeth ac ymchwil, a restrir isod:**

---

**The *State of Nature 2019* report is a collaboration between the conservation and research organisations listed below:**

**www.nbn.org.uk/stateofnature2019**